
Egluro sut gall Darparwyr Cyfathrebiadau ddefnyddio rhifau ffôn symudol

Addasiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 09 Tachwedd 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 21 Rhagfyr 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cynnig newidiadau i'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol er mwyn egluro bod rhifau 07X i'w defnyddio i adnabod cyfarpar symudol fel cyrchfan ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau electronig.

Mae'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol yn nodi manylion yr holl rifau ffôn yn y DU a sut mae modd eu defnyddio.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb gweithredol

4

1. Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- 1.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi dilyn polisi o symleiddio'r ffordd y mae rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol yn cael eu defnyddio. Mae hyn er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod defnyddwyr yn deall yn reddfol beth mae ystod rhifau penodol nad ydynt yn rhai daearyddol yn ei olygu, o ran y math o wasanaethau sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y rhifau ffôn, a faint mae'n debygol o gostio i ffonio rhif mewn ystod penodol.
- 1.2 Mae rhifau 07x yn ystod o rifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol, sy'n cael eu defnyddio ar rwydweithiau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus. Maent yn cael eu rhoi gan amlaf gan ddarparwyr cyfathrebiadau i gwsmeriaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau llais a data symudol, fel ffordd o adnabod y set ffôn symudol y mae'r cwsmer yn ei defnyddio i dderbyn cyfathrebiadau electronig sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y gwasanaethau hynny. Hefyd, mae'r rhifau'n cael eu defnyddio yng nghyswllt set ehangach o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau anfon galwadau yn eu blaen a gwasanaethau galwadau cynadledda. Yn yr achosion hyn, roedd darparwyr cyfathrebiadau'n rhoi'r rhifau hyn, ac yn eu defnyddio i adnabod cyfarpar sefydlog sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaethau dan sylw.
- 1.3 Mae Ofcom yn poeni nad yw'r dynodiad presennol ar gyfer rhifau 07x yn y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y Cynllun), y gellir ystyried ei fod yn cynnwys yr holl ddefnyddiau hyn, yn sicrhau'r defnydd gorau ar gyfer rhifau 07x. Yn benodol, rydym yn poeni bod rhai o'r ffyrdd y mae rhifau 07x yn cael eu defnyddio'n golygu bod risg nad yw defnyddwyr yn deall yr ystod a'r pris y maent yn debygol o'i dalu am alwadau i'r rhifau hyn. Hefyd, mae'n bosib y byddant yn arwain at drin defnyddwyr rhwydweithiau sefydlog yn llai ffafriol na defnyddwyr rhwydweithiau symudol.
- 1.4 Felly, rydym yn cynnig symleiddio'r dynodiad er mwyn sicrhau mai dim ond i adnabod cyrchfan gwasanaeth cyfathrebiadau electronig os mai cyfarpar symudol sy'n ei dderbyn y mae modd defnyddio'r rhifau (set ffôn symudol fel rheol). Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein rhesymau dros gynnig y newid a'r addasiadau arfaethedig i'r Cynllun sy'n angenrheidiol er mwyn ei roi ar waith yn ein barn ni.
- 1.5 Rydym hefyd yn cynnig newid diffiniad 'gwasanaethau symudol' yn y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu realiti sut mae gwasanaethau symudol yn cael eu darparu heddiw.
- 1.6 Gwahoddir rhanddeiliaid i roi sylwadau ar y cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn ac ar y cynigion rydym yn eu cyflwyno erbyn 21 Rhagfyr 2017.